

## **CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 27ain Ionawr 2020**

### **PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams(Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng. Hefin Martin, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

### **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Dylan Jones

### **CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain Tachwedd, 2020.

### **Materion yn codi o'r cofnodion**

#### **EGIN WEN, LLANDDOGED**

Cadarnhawyd fod y golau wedi cael ei osod ym maes parcio Cegin Wen gan Gyngor Conwy. Derbyniwyd llythyr gan Mr Gareth Davies, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanddoged ar ran staff yr Ysgol yn pryderu am gyflwr y maes parcio o dan draed. Maent yn gweld y maes parcio yn fwdlyd ac mae'r staff yn cario'r mwd ar ei hesgidiau i'r Ysgol. Cais ganddynt os oes modd i'r Cyngor Cymuned ystyried raeanu wyneb y maes parcio. Trafodwyd y cais a phasiwyd i rai aelodau'r cyngor cymuned fynd draw i'r maes parcio i asesu'r sefyllfa a gweld beth a all ei roi lawr yno. Y Clerc i anfon e-bost i'r Pennaeth Ysgol Llanddoged i gydnabod y llythyr a rhoi diweddariad ar benderfyniad y cyngor.

#### **TARMACIO FFYRDD YR ARDAL**

Nododd Cyng. Austin Roberts ei fod yn cydnabod fod angen trarmacio rhai ffyrdd yn ardal Llanddoged a Maenan yn enwedig ffordd Ffrith, Ffordd Cefn Llech i lawr at groesffordd Bryn Glas a Ffordd Fron Francis. Bydd y Sir yn derbyn ei sefyllfa Gyllidol am y flwyddyn 2020/21 yn fuan ac mi fydd yn gallu rhannu rhagor o wybodaeth o ran trarmacio ffyrdd wedi hynny.

#### **CAE CETYN, CAE CHWARAE'R PENTREF**

Cyng Austin Roberts wedi ymchwilio i'r mater o dorri dwy goeden arall yng Nghae Cetyn a gododd yn y cyfarfod diwethaf gan Cyng. Arwel Jones ond ddim yn gallu gweld yn union ble mae'r ddwy goeden sydd angen ei dorri. Bydd yn trafod y mater gyda Cyng. Arwel Ll. Jones yn y cyfarfod nesaf.

#### **MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Eglurodd y clerc y bydd angen edrych ar y sefyllfa maes parcio Cadair Ifan Goch gan fod yna dwll wrth y fynedfa maes parcio a bod pryder i gerbydau cael eu difrodi wrth barcio yno. Pasiwyd i edrych os bydd y defnydd raeanu maes parcio dros ben o Gegin Wen i fynd ac ychydig i lenwi'r twll ym maes parcio Cadair Ifan Goch.

#### **ADRODDIADAU CAEAU CHWARAE LLANDDOGED A MAENAN**

Yn dilyn yr adroddiad a dderbyniwyd gan Mr Bryn Shiland o Gyngor Sir Conwy am gostau refeniw Cae chwarae Llanddoged a Maenan pasiwyd i ychwanegu arian yn y praesept 2020/21 ar gyfer y costau cynnal a chadw'r caeau chwarae. Cyng. Austin Roberts wedi bod yn edrych ar y rhai diffygion a godwyd yn yr adroddiad cae chwarae Maenan ac wedi nodi beth y gall ei ddatrys o ran atgyweirio rhai o'r diffygion.

## **GOFYNION Y PRAESEPT 2002/2021**

Trafodwyd y copi o'r amcangyfrif praesept ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Bydd rhaid ystyried y gofynion newydd ar gyfer cynnal a chadw'r caeau chwarae Llanddoged a Maenan, costau am osod y golau yn Gegin Wen a'r costau am raenu wyneb y maes parcio yn y praesept. Penderfynwyd a phasiwyd aelodau'r Cyngor yn gytûn drwy godi eu dwylo i godi'r praesept am y flwyddyn 2020/21 i £6,200.

## **CYNLLUNIO**

- Cais rhif 0/46966 - Mr John Williams, Storfa Goed a Pheiriannau, Newydd arfaethedig, Bryn Aber Farm, Ffordd Ffrith, Llanddoged, Llanrwst.
- Cais Rhif 0/47039 - Dymchwel yn rhannol rhan unllawr yr annedd. Adeiladu estyniad deulawr - Larke Stoke, Llanddoged Rd, Llanddoged.

Pasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio uchod.

## **CEISIADAU ARIANNOL**

Derbyniwyd llythyr gan Mr & Mrs Denis Davies yn gofyn am rodd ariannol tuag at yr Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy. Pasiwyd i anfon y swm o £25 fel rhodd ariannol gan y Cyngor Cymuned.

## **CYNNAL A CHADW**

1. Pryder am stepiau/grisiau tu allan i fynedfa Ysgol Gynradd Llanddoged fod dim goleuadau wedi cael ei gosod yno a bod y tap yn dal yno i gau'r grisiau ffwrdd.  
[Nododd aelodau'r Cyngor Cymuned mae'r Cyngor Sir Conwy sydd yn gyfrifol am weithredu i gael goleuadau ar gyfer y grisiau/stepiau](#)
2. Angen torri clawdd ar yr A470 o dan Plas Maenan.  
[Cyng Austin Roberts yn cadarnhau fod y Cyngor Sir yn gweithio eu ffordd ar hyd yr A470.](#)
3. Dwr yn sefyll wrth Hanner Ffordd, Maenan.
4. Dwr yn sefyll ar y groesffordd gyferbyn a Chae Chwarae Maenan.
5. Angen Sweeper i fyny'r allt o Wigfa hyd at Tŷ'r Ysgol, Maenan.
6. Angen sweeper i hel y dail o'r ffos ar gyfer Allt Fron Francis a glanhau Allt Goch Llanddoged
7. Pryder fod yr arwyddion(chvron) newydd ar y tro ar allt wrth Wigfa wedi cael eu gosod yn rhy uchel.
8. Tyllau yn y ffordd wrth Tyddyn Frencher, Maenan.
9. Biniau Ail Gylchu maes parcio CO-OP Llanrwst- Pryder fod y Cyngor Sir yn cael gwared â'r biniau.  
[Cyng. Austin Roberts am adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf am ddiweddariad gyda'r biniau ail-gylchu.](#)
10. Nifer o dyllau yn y ffordd ar y Ffordd Fron Francis, Llanddoged.
11. Pont y Garth Maenan. [Cadarnhaodd Cyng. Austin Roberts fod Cyngor Sir Conwy yn mynd i atgyweirio'r bont unwaith eto a hefyd nododd fod cais wedi cael ei anfon i'r tir feddianwyr wrth ymyl y bont i gael symud y clawdd yn ôl ychydig i wneud pethau yn fwy hwylus i gerbydau mawr gael mynedfa i'r bont.](#)
12. Angen diweddariad i arwyddion groesffordd Tŷ Uchaf Maenan.
13. Concrit slaps angen ei ail gosod wrth ymyl y bocs blodau ym Maes Gwyn, Llanddoged.  
[Angen edrych ar y sefyllfa i weld faint o waith atgyweirio sydd ei angen ar y concrit slaps.](#)
14. Dwr yn hel wrth gyffordd y ffordd sy'n fforchio am Sarn a Belmont Llanddoged.